CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL
YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TAL-Y-BONT

4.00 – 4.55 PM, 3 RHAGFYR 2020

Yn bresennol:	Bethan Davies (Cadeirydd), Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Y Cynghorydd Rhian Evans, Trish Huws, Helen Ovens, Eirian Evans, Cathryn Lloyd-Williams, Llio Rhys, Siwan Evans, Leah Griffiths, Hefin Jones (Pennaeth).
	Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Cam Gweithredu*:
1i	**DATGAN BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD / EGWYDDORION YMDDYGIAD** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:		
	a)	yr angen i ddatgan buddiant dan bob eitem ar yr agenda, neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol, lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod. Byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi;	
	b)	bod y materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol hyd nes y byddai'r cofnodion yn cael eu cymeradwyo ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	c)	yr Egwyddorion Ymddygiad yr oedd y Llywodraethwyr wedi eu llofnodi wrth iddynt gael eu henwebu i'r rôl gan nodi eu bod ar gael ar Teams er gwybodaeth.	
	PENDERFYNWYD nodi'r pwyntiau uchod.		
1ii	**CADEIRYDD:**		
	PENDERFYNWYD penodi Bethan Davies yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn 2020/2021. Diolchwyd i Rhian Evans, a oedd newydd roi'r gorau iddi fel Cadeirydd, am ei holl waith caled dros y pedair blynedd ac yn benodol am ei gwaith yn ystod y flwyddyn anodd ddiwethaf.		
1iii	**IS-GADEIRYDD:**		
	PENDERFYNWYD penodi Cathryn Lloyd Williams yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn 2020/2021.		
1iv	**COFNODION:**		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Cam Gweithredu*:
	Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2020 eu cadarnhau ond nodwyd nad oedd Cathryn Lloyd Williams yn bresennol yn y cyfarfod. Byddent yn cael eu llofnodi'n ddiweddarach (a hynny oherwydd cyfyngiadau Covid-19).	
1v	**PWYLLGORAU'R CORFF LLYWODRAETHOL:**	
	PENDERFYNWYD penodi aelodau'r Pwyllgorau fel a ganlyn gan ddilyn a mabwysiadu dogfen y Cylch Gorchwyl a'r Egwyddorion Ymddygiad a oedd wedi bod ar gael i'r aelodau ar Teams:	
	Disgyblu a Diswyddo Staff: 2 Riant-lywodraethwr, Llywodraethwr Cymunedol **Apeliadau Disgyblu a Diswyddo Staff:** Is-gadeirydd, Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol, Rhiant-lywodraethwr	
	Disgyblu a Gwahardd Disgyblion: Cadeirydd, Llywodraethwr Cymunedol, Rhiant-lywodraethwr	
	Dethol Pennaeth a Dirprwy Bennaeth: 3-7 aelod yn ôl yr angen	
	Rheoli Perfformiad Penaethiaid: Cadeirydd, Trish Huws **Apeliadau Rheoli Perfformiad Penaethiaid:** Is-gadeirydd, Helen Ovens	
	Adolygu Tâl: Cadeirydd, Trish Huws, Rhian Evans **Apeliadau Adolygu Tâl:** Is-gadeirydd, Ellen ap Gwynn, Eirian Evans	
	Cwynion: Is-gadeirydd, Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol, Rhiant-lywodraethwr	
	Cwynion Cyflogaeth Staff: Is-gadeirydd, 2 Aelod **Apeliadau Cwynion Cyflogaeth Staff:** 3 aelod	
	Galluogrwydd Penaethiaid: Ellen ap Gwynn, Bethan Davies, Eirian Evans **Apeliadau Galluogrwydd Penaethiaid:** Rhian Evans, Trish Huws, Helen Ovens	
	Cyllid: Corff Llywodraethol Llawn	
	Safonau, Perfformiad a Chwricwlwm: 3 aelod	
	Eiddo, Adeiladau, Iechyd a Diogelwch: 3 aelod	
	Staffio a Phersonél: Dewisir aelodau yn ôl yr angen (gweler dogfen y Cylch Gorchwyl) **Apeliadau Staffio a Phersonél:** Dewisir aelodau yn ôl yr angen (gweler dogfen y Cylch Gorchwyl)	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Cam Gweithredu*:
	Llesiant: Pennaeth, Trish Huws, 2 aelod	
	Ymgysylltu â'r Gymuned: Pennaeth, 3 aelod	
1vi	**CYFRIFOLDEBAU'R LLYWODRAETHWYR**	
	PENDERFYNWYD penodi'r llywodraethwyr canlynol â chyfrifoldeb dros y meysydd canlynol:	
	*Amddiffyn Plant, Diogelu a Rhianta Corfforaethol - Bethan Davies	
	*Anghenion Dysgu Ychwanegol - Trish Huws	
	Cytundeb Llwyth Gwaith - Ellen ap Gwynn	
	Ymsefydlu / Hyfforddiant / Y Fforwm - Eirian Evans	
	Chwythu'r Chwiban - Cathryn Lloyd-Williams.	
	Presenoldeb – Rhian Evans	
	*E-ddiogelwch/ GDPR / Hwb – Helen Ovens	
	Ieithoedd, Llythrennedd, Cyfathrebu - Eirian Evans	
	Gwyddoniaeth a Thechnoleg - Cathryn Lloyd Williams	
	Dyniaethau - Helen Ovens	
	Y Celfyddydau Mynegiannol - Trish Huws	
	Mathemateg a Rhifedd – Siwan Evans	
	Iechyd a Llesiant - Trish Huws	
	Addysg Grefyddol - Bethan Davis	
	*Mae angen Datgeliad cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.	
1vii	**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHIENI 2019-2020:**	
	Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i baratoi ac y byddai ar gael i'r aelodau cyn y byddai ar gael i'r rhieni.	
2i	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**	
	Roedd copi o adroddiad y Pennaeth (gyda'r penawdau sydd wedi'u diweddaru oherwydd Covid-19) wedi bod ar gael i'r aelodau ar Teams. Cafwyd trafodaeth am y materion canlynol:	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Cam Gweithredu*:
	Rhannodd y Pennaeth y wybodaeth ganlynol: Roedd y protocolau a oedd ar waith yn gweithio'n dda. Hefyd, roedd y staff yn gweithio'n galed ac roeddent ar adegau yn mynd drwy'r dydd heb weld aelod arall o staff. Roedd y disgyblion yn hapus ac roeddent yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ohonynt. Roedd y Pennaeth yn aros am ymateb oddi wrth yr Awdurdod Lleol ynglŷn â'r strwythur staffio pan na fyddai ef ar gampws un o'r ysgolion. Roedd pob dosbarth yn gweithio ar brosiect digidol ar gyfer y Nadolig. Er bod y pwyslais ar hyn o bryd ar lesiant y Disgyblion, roedd yna ddatblygiadau mewn meysydd eraill ar y cwricwlwm. Byddai'r un strwythur staffio yn ei le tan adeg y Pasg 2021. Byddai hyn yn effeithio ar gyllideb y flwyddyn nesaf. Roedd copi o'r Ffurflen Monitro Ariannol wedi bod ar gael i'r aelodau o'r blaen. Nodwyd bod newidiadau wedi'u gwneud. Byddai llai o arian yn cael ei ddwyn ymlaen. Roedd un disgybl newydd wedi dechrau'r wythnos ddiwethaf. Dywedodd Ellen ap Gwynn wrth yr aelodau y byddai oedi o ran gosod cyllidebau, y byddai ERW yn dod i ben ac y byddai'r trafodaethau yn parhau o ran dosbarthu cyllid.	
2ii	**DEILIAID ALLWEDDI'R YSGOL**	
	Roedd rhestr o ddeiliaid yr allweddi wedi ei darparu i'r Pennaeth yn flaenorol. **PENDERFYNWYD** nodi nad oedd y manylion wedi'u newid.	
3	**HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:**	
	Rhoddodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr wybod i'r aelodau fod yr hyfforddiant ar-lein yn parhau. Roedd Fforwm y Llywodraethwyr yn cael ei gynnal drwy Teams bob tymor.	
4i	**POLISÏAU – POLISÏAU STATUDOL (gan ddilyn amserlen yr Awdurdod Lleol):**	
	Amddiffyn Plant Rheoli Perfformiad **l'w hadolygu os oes newidiadau wedi'u gwneud:** Codi Tâl Cwynion (i'w gyhoeddi ar wefan yr Ysgol) Cwricwlwm Diogelu Data Iechyd a Diogelwch Disgyblaeth Disgyblion (ac Atal Bwlio) Addysg Ryw Anghenion Dysgu Ychwanegol Gweithdrefnau Disgyblu, Ymddygiad, Galluogrwydd Staff a Chwynion.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Cam Gweithredu*:
	Rheoli Straen		
4ii	**POLISI DERBYN 2021-2022:**		
	Roedd copi o'r polisi wedi'i lanlwytho i Teams er gwybodaeth. **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r polisi.		
5	**UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:**		
	a)	**Clwb ar ôl Ysgol:** Cyfeiriodd y Pennaeth at y pwyllgor oedd wedi'i sefydlu. Nodwyd na fyddai'r Clwb yn agor am y tro ac y byddai'r sefyllfa yn cael ei hadolygu yn y flwyddyn newydd. Roedd y Clwb Brecwast ar agor i'r disgyblion hynny oedd angen y ddarpariaeth. Diolchodd y Pennaeth i'r rhieni am ddim ond anfon y disgyblion pan oedd gwir angen gwneud hynny. Roedd popeth yn mynd yn dda.	
	b)	**Diolch:** Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth a'r staff am eu gwaith rhagorol yn ystod y cyfnod anodd hwn a dymunodd Nadolig Llawen i bawb.	
6	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**		
	PENDERFYNWYD nodi y byddai cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol Llawn yn cael ei gynnal ar 24 Mawrth 2021.		

PL
07:12:2020